**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**2 Chwefror 2024**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn, Caerdydd, ac ar-lein

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly, Alexia Course a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**2. Sylw i ddiogelwch.**
Yn gyffredinol, roedd gweithrediadau Genesis a Garland yn gadarnhaol. Roedd 148 o bobl wedi'u gwahardd rhag teithio oherwydd problemau ymddygiad. Roedd y gweithrediadau'n fuddsoddiad da o ran amser, ac roedd nifer sylweddol o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant gloywi hygyrchedd a chynhwysiant.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ionawr 2024 fel cofnod cywir. Nodwyd a diweddarwyd y Log Camau Gweithredu.
Trafododd y Bwrdd rinweddau penodi rheolwyr llinell ar gyfer llwybrau unigol, a chytunodd y dylid trafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol **[Jan Chaudhry Van der Velde i weithredu]**.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Mae'r perfformiad wedi gwella, ac er bod prinder cerbydau rheilffyrdd oherwydd y tywydd garw yn yr hydref a bod angen troi rhagor o olwynion, roedd y rhaglen trwsio olwynion wedi cael ei rheoli'n dda. Mae'r holl dargedau dangosydd perfformiad allweddol wedi'u cyflawni, ac mae targedau mwy heriol wrthi'n cael eu hadolygu. Mae lefelau boddhad a chwynion gan gwsmeriaid wedi adlewyrchu'r perfformiad gwell. Yn gyffredinol, rydyn ni ar drywydd cadarnhaol o welliant cyffredinol wrth i'r Gwanwyn nesáu. Prin yw'r achosion o ganslo o ganlyniad i brinder staff.
- Mae gwaith yn parhau gyda DB Cargo i ddelio â'r prinder locomotifau ar gyfer yr MKIV. Nododd y Bwrdd bod yr uned 5+2 gyntaf wedi cael ei gweithredu yn ystod y cyfnod. Trafododd y Bwrdd yr amser gorau ar gyfer lansio cyfathrebiadau ynghylch y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf.
- [redacted]
- Ymwelodd Prif Weithredwr Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd a Phrif Arolygydd Rheilffyrdd (HMRI) â llinell Bae Caerdydd ganol mis Ionawr i drafod cais TrC i drosi i statws nad yw'n brif linell. Mae ffordd ymlaen wrthi'n cael ei datblygu i fod yn gallu rhoi signalau llinell weld ar waith er mwyn osgoi costau sylweddol o ran dylunio ac adeiladu cynllun signalau rheilffyrdd trwm ac oes byr ar gyfer y bae.
- [redacted]

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad, ond cytunodd y byddai data ynghylch tueddiadau'n ddefnyddiol **[Jan Chaudhry Van der Velde i weithredu]**.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Cylch gorchwyl yr is-bwyllgor perfformiad**
Cymeradwyodd y Bwrdd y cylch gorchwyl ar gyfer is-bwyllgor y Bwrdd Perfformiad Gweithredol.

**7. Datblygu gwasanaethau pellter hir**
*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yng nghyswllt y canlynol:

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

(1) Enw brand ar gyfer y gwasanaeth Premier. Cytunodd y Bwrdd fod gwerth i bob gwasanaeth gael ei enwi'n unigol.

[redacted]

(3) Targed o dan dair awr ar gyfer gwasanaethau gogledd Cymru. Cytunwyd i edrych yn fanylach, a dylid dod ag opsiynau yn ôl i'r Bwrdd **[Piers Croft i weithredu]**.

[redacted]

*Gadawodd Piers Croft y cyfarfod.*

### 8. Opsiynau ar gyfer defnyddio fflyd cyflwr terfynol Cymru a'r Gororau

*Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod.*

Ystyriodd y Bwrdd bapur yn nodi opsiynau ar gyfer cyflwyno fflyd Cymru a'r Gororau ar sail newidiadau sylfaenol ers cais masnachfraint gwreiddiol KA. [redacted]

[redacted]

*Gadawodd Colin Lea y cyfarfod.*

### 9. Adolygiad ariannol

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd y trosolwg o Gyfnod 10 (P10) y Rheilffyrdd a'r golwg tua'r dyfodol. Nododd y Bwrdd yn arbennig y sefyllfa ffafriol o ran refeniw yn ystod y flwyddyn hyd yma, gyda chynnydd sylweddol yn P10, ond nododd y gostyngiad disgwyliedig yn P11.

[redacted]

### 10. Cyllideb

Nododd y Bwrdd y newidiadau ers cyflwyno'r fersiwn diwethaf.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

### 11. Dangosfwrdd risg rheilffyrdd

Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd risg rheilffyrdd, a chytunodd i edrych yn fanylach ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

**12. Diweddariad masnachol Class 197**

*Ymunodd Owen Clutterbuck a Rob Hale â'r cyfarfod.*

Ystyriodd y Bwrdd bapur yn rhoi cyfeiriad strategol i dîm masnachol yr MSA ar sut y dylai ymgysylltu â CAF. [redacted]

*Ymunodd Owen Clutterbuck a Rob Hale â'r cyfarfod.*

**13. Strategaeth Cerbydau Rheilffyrdd**

Trafododd y Bwrdd bapur yn ceisio cymeradwyaeth i gadarnhau cyfeiriad strategaeth cerbydau rheilffyrdd yn y dyfodol mewn perthynas â phob is-fflyd ar ôl trawsnewid.

[redacted]

**14. Cynllun busnes**

*Ymunodd Michael Pearce â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cynllun busnes blynyddol TrC.

*Gadawodd Michael Pearce y cyfarfod.*

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**